

Y Tîm Cymorth Cynnar

Pwy ydym ni?

Mae'r Tîm Cymorth Cynnar yn rhoi cymorth i blant/pobl ifanc ag anableddau/awtistiaeth a'u teuluoedd. Rydym yn wasanaeth Ymyrraeth Gynnar a'n nod yw helpu plant/pobl ifanc a'u teuluoedd i oresgyn heriau a chyflawni eu potensial.

Pwy allwn ni helpu?

- Pobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin
- Rhaid i chi fod rhwng 0 a 25 oed
- Rhiant/gofalwr rhywun sydd rhwng 0 a 25 oed
- Plant/pobl ifanc ag anableddau/awtistiaeth (wedi cael diagnosis/heb gael diagnosis) a'u teuluoedd
- Os ydych o dan 16 oed bydd angen caniatâd eich rhieni arnoch i gael cymorth gan ein tîm

Beth allwn ei gynnig i chi?

- Asesiad i gael gwybod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio.
- Cynllun cymorth y byddwn yn ei ddatblygu gyda'n gilydd ac yn ei adolygu yn ôl yr angen.
- Cymorth pwrpasol o ran anghenion synhwyraidd, cydnerthedd, dulliau ymarferol o reoli ymddygiad a gorbryder.
- Cymorth o ran anghenion y bledren a'r coluddyn, hylendid cwsg a deiet.
- Gallwn weithio gyda chi i'ch helpu i fagu hyder, a chynnig cymorth emosiynol.
- Gallwn eich helpu i gamu ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.
- Gallwn eich helpu chi a'ch teulu i nodi gweithgareddau, cymorth a gwasanaethau perthnasol yn y gymuned a fydd yn eich galluogi i gyflawni eich nodau.
- Gallwn eich helpu i wella eich annibyniaeth trwy ddatblygu sgiliau fel cyllidebu, hyfforddiant teithio a choginio.
- Gallwn eich helpu i ddeall mwy am eich anabledd/awtistiaeth.

Lleoliad Cyn-ysgol:

Rydym yn cynnig cymorth i leoliadau cyn-ysgol i wella eu gallu i ddiwallu anghenion plant ag anableddau. Rydym yn cynnig cyngor ac arweiniad i'r lleoliad, hyfforddiant ac yn ariannu cymorth un i un os yw'r asesiad yn nodi ei fod yn angenrheidiol.

Sut y gallem roi cymorth?

- 1:1 yn y cartref neu'r gymuned Gweithdai/hyfforddiant
- Gwaith grŵp
- Mae clinigau arbenigol yn cael eu darparu mewn partneriaeth â chydweithwyr ym maes iechyd.

